

Pa ddisgyblion ydw i'n eu hasesu?

Mae Language Link i Fabanod wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio fel sgrin dosbarth cyfan gyda phlant yn y dosbarth derbyn. Fe gafodd ei gynllunio'n benodol i bennu, cyn gynted â phosibl, blant a allai gael anhawster deall iaith. Yn aml, mae modd i'r plant yma guddio'u hanhawster.



Yn y blynyddoedd canlynol, dyma'r plant rhwng 5-8 oed sydd wedi'u dod i'r amlwg oherwydd eu canlyniadau mesuredig a'r ddarpariaeth sydd wedi mapio iddyn nhw, yn rhai sydd angen cefnogaeth bellach eleni.



Mae Language Link Iau yn cael ei ddefnyddio i nodi a chefnogi plant sydd ag Anghenion Lleferydd, iaith a Chyfathrebu (ALiCh) ysgafn i gymedrol a'r rhai sy'n newydd i'r Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2. Bydd yr asesiad hefyd yn amlygu unrhyw blant a allai fod ag anghenion iaith mwy difrifol, megis Anhwylder iaith Datblygiadol (AID).

Yn addas ar gyfer plant rhwng 7 ac 11 oed, mae'n canolbwyntio ar sgiliau iaith lefel uwch hanfodol fel gwneud casgliadau, gramadeg cymhleth ac iaith ffigurol.

Speech Link - Peidiwch â sgrinio plentyn oni bai bod gyda chi bryder am ei leferydd.

A ydy'r plentyn wedi'i gofnodi'n un sydd ag anhawster lleferydd? Os na, does dim angen i chi sgrinio'r plentyn.

Pa Flwyddyn ddylwn i ei Hasesu'n Gyntaf?

Ar gyfer ysgolion sydd wedi sgrinio disgyblion mewn blynyddoedd blaenorol, rydyn ni'n argymhell eich bod yn sgrinio'ch disgyblion yn gyntaf ym Mlwyddyn 1 ac uwch.

Mae'n well gadael i'r dosbarth derbyn setlo cyn eu sgrinio. Nod yr asesiad yw tynnu sylw at anawsterau disgybl yn gynnar. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod plentyn wedi setlo'n gyntaf. Os ydy asesiad yn cael ei gynnal yn rhy gynnar, bydd y canlyniadau'n debygol o adlewyrchu lefelau pryder a blinder sy'n gysylltiedig â dechrau'r ysgol a fyddan nhw ddim yn adlewyrchiad cywir o ddealltwriaeth y plentyn o iaith.

Dylai asesiadau ar gyfer disgyblion y dosbarth Derbyn ddechrau hanner tymor Hydref

Gweminarau hyfforddi i ddefnyddwyr newydd Language Link

Bydd y 2 sesiwn min nos yma'n rhad ac am ddim ac yn cael eu cynnal gan Heather Stevens, therapydd lleferydd ac iaith, ar y dyddiadau hyn:

- 10 Tachwedd rhwng 3.30 a 5.00
- 17 Tachwedd rhwng 3.30 a 5.00

Os ydych chi'n dymuno cofrestru i fod yn bresennol, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth ar 0333 577 0784.

Mae modd i ysgolion gadw un lle yn unig, er does dim cyfyngiadau ar y nifer o staff o'r ysgol sy'n gwyllo'r sesiwn.

Os oes angen cyngor pellach arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â mi.

- E-bost: rachel.williams3@rctcbc.gov.uk
- Rhif Ffôn: 01443 744333